

Gweinyddu'r arolwg adborth

Bydd meddyg yn nodi gweinyddwr ar ddechrau'r broses adborth i gasglu adborth cleifion ar ei ran. Ni ddylai'r meddyg gael mynediad at holiaduron unigol.

Os gofynnwyd i chi weinyddu adborth meddyg, dylech sicrhau;



- Bod y ffurflen rydych yn ei rhoi i'r claf yn ffurflen ar gyfer y meddyg cywir
- Bod pob claf yn cael cyfle i ddarllen y 'Canllaw i Gleifion' cyn llenwi'r arolwg
- Bod pob holiadur sy'n cael ei gynhyrchu yn cael ei roi i gleifion
- Bod yr holl wybodaeth yn cael ei chadw yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data
- Os yw'r claf wedi rhoi adborth yn electronig, bod y ffurflen bapur gyfatebol yn cael ei difrodi. **Os bydd claf yn ceisio rhoi adborth ar ffurflen bapur ond bod y cod electronig wedi cael ei ddefnyddio, ni ellir defnyddio'r adborth.**

PEIDIWCH Â GWNEUD LLUNGOPIAU O'R FFURFLENNI ADBORTH – os rhoddir adborth ar ffurflen wedi'i chopio ni ellir defnyddio'r ffurflen honno ar gyfer adroddiad adborth y meddyg.

Mae holiadur y GMC wedi'i gynllunio i gael ei roi i 45 o gleifion (neu ofalwyr) yn olynol fel arolwg yn dilyn ymgynghoriad neu arolwg 'ymadael'. Dylai gymryd tua 5 munud i gleifion llenwi'r holiadur. Lle bynnag y bo modd, dylid annog cleifion i llenwi'r arolwg yn syth ar ôl eu hapwyntiad – ar bapur neu ar-lein. Pan fydd claf yn dychwelyd arolwg wedi'i gwblhau, dylech sicrhau bod yr arolwg yn cael ei gadw'n ddiogel cyn dychwelyd y ffurflenni i'r Uned Cymorth Ailddilysu.

“Os yw'r claf yn blentyn ifanc (dan 12 oed) neu'n berson heb alluedd meddyliol, gall gofalwr (neu 'brocsi') llenwi'r arolwg ar ran y claf. Er hyn, ni ddylid defnyddio 'procsi' yn ddiofyn ar gyfer cleifion sydd angen holiaduron mewn fformat gwahanol – e.e. print bras.

Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd achosion pan fyddwch yn credu nad yw'n briodol gofyn am adborth gan glaf penodol. Mae angen i feddygon a staff ddefnyddio'u barn broffesiynol ynglŷn â phriodoldeb gofyn am adborth gan glaf”

[Y Cyngor Meddygol Cyffredinol – Working with doctors, working for patients]

Sut mae dychwelyd y ffurflenni?



Gallwch ddychwelyd ffurflenni adborth papur mewn 2 ffordd;

Drwy'r post i **Orbit360, Revalidation Support Unit, Ty Dysgu, Cefn Coed, Nantgarw, CF15 7QQ**
NEU



Gallwch sganio ffurflenni a'u hanfon drwy ebost i surveys@orbit360.org - **nid oes**

angen i chi ychwanegu unrhyw wybodaeth am y meddyg oherwydd mae gan bob

ffurflen god a fydd yn dangos pwyswch yw'r meddyg. Gwnewch yn siŵr bod unrhyw gopiâu papur neu electronig yn cael eu storio'n ddiogel am 14 diwrnod ac yn cael eu gwaredu ar ôl hynny gan ddefnyddio prosesau gwastraff cyfrinachol.

Mae rhestr lawn o Gwestiynau Cyffredin i'w gweld [yma](#).